CYNGOR TREF NEFYN TOWN COUNCIL

Chris Reading Ysw.,
Y Cynulliad,
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA.

Graig Las
Stryd Fawr / High Street,
NEFYN,
Pwllheli,
Gwynedd LL53 6HD.
Tel: / Fax 01758 720507
Mobile: 07770 595729
E-mail: jgriffiths@clara.co.uk.

10fed Rhagfyr 2008.

Annwyl Syr,

Galwad am dystiolaeth.

Diolch am eich llythyr parthed yr uchod.

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod o'r Cyngor neithiwr, ni ddaeth y Cyngor i unrhyw benderfyniad unfrydol. 'Roedd rhai o'r Cynghorwyr yn gweld y Cynulliad yn haen o Lywodraeth Leol ddianghenraid ac yn wastraff amser llwyr. Nid oedd dim angen yr anghenfil mawr yma ym Mae Caerdydd. Nid yw yn fawr o werth i Ogledd Cymru beth bynnag.

Ochr arall i'r ddadl oedd fod y Cynulliad yn gorff pwysig iawn i Gymru ond yn hollol ddi-werth heb lawer mwy o bwerau. Eto roedd yr aelodau yma yn gweld y Cynulliad yn costio llawer gormod i'w redeg.

Y cwestiwn a godwyd oedd.... Pam fod yr alwad am dystiolaeth wedi codi yn y lle cyntaf. A yw'r aelodau yn teimlo'n euog am y costau a 'gwerth am arian'.

Roedd y Cyngor yn teimlo bod angen gwneud rhywbeth i newid y sefyllfa bresennol, a dangos fod y Cynulliad yn gweithio a sicrhau bod arian o Ewrop yn cael ei wario i godi safon byw Penrhyn Llŷn.

Pob bendith,

Clerc & Swyddog Ariannol - Clerk & Financial Officer.
John Griffiths FBEng., MRICS., FCIOB., FRSH., RMaPS., MFPWS.
Chartered Surveyor, Quantity, Building & Construction Consultancy,
Cadeirydd / Chairman: Gareth Hughes, Rock House, Stryd y Plas, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. Tel: 01758 720657